**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

21 Chwefror 2024

Annwyl Paul,

Trafod cynigion ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (y Pwyllgor) wedi cytuno i gyflawni darn byr o waith ar **gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy**.

Bydd y Pwyllgor yn cynnal digwyddiad i randdeiliaid ddydd Mercher 13 Mawrth i gasglu safbwyntiau ar y cynigion gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion. Gan fod eich Pwyllgor chi yn rhannu ein diddordeb yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, hoffwn wahodd eich Pwyllgor i gymryd rhan yn y digwyddiad.

Er mwyn llywio ein gwaith ymhellach, byddwn yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda chynrychiolwyr o'r sector ffermio a sector yr amgylchedd, ymhlith eraill, yn ein cyfarfod ar 21 Mawrth. Bydd y sesiynau'n canolbwyntio ar agweddau amgylcheddol y cynigion fel y maent yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor. Os hoffai unrhyw aelodau o'ch Pwyllgor chi gymryd rhan yn y sesiynau, mae croeso, wrth gwrs, iddynt wneud hynny.

Os bydd angen unrhyw fanylion pellach arnoch chi neu unrhyw aelodau o'ch Pwyllgor, byddwn yn hapus i gwrdd er mwyn trafod. Fel arall, bydd y tîm Clercio ar gael i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi neu'ch tîm Clercio.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.